Rap- Canolfan Iaith Maesincla

Mae'r broses o ail ddweud ac ailadrodd unrhyw 'set o eiriau' ar y cof yn gam pwysig iawn yn natblygiad iaith plant. Mae iaith a symudiad yn rhan annatod o'i gilydd ac wrth ychwanegu'r defnydd o rhythm bydd y geiriau, boed rheini'n ymadroddion, yn gysyllteiriau, yn arddodiaid neu'n batrymau brawddeg yn fwy tebygol o aros yn yr ymennydd. Mae defnyddio rhythm a symudiad yn fodd o bwysleisio'r geiriau ac atgyfnerthu'r cof ac yn ffordd bwerus o fewnoli unrhyw batrwm iaith.

O wybod y 'rap' ar y cof, gall y plant roi cynnig ar ysgrifennu'r gair ar eu bwrdd ysgrifennu gwyn. Rhaid atgoffa'r plant i wrando ar y llafarganu yn eu pennau a holi os ydyn nhw'n gallu 'gweld' y gair. Cam naturiol yw annog y plant i gychwyn brawddegau gan ddefnyddio'r arddodiaid neu gysyllteiriau sydd ganddynt ar gof a chadw. Wrth reswm gellir amrywio ffurf a geiriau'r 'rap'ar gyfer dibenion amrywiol e.e. er mwyn atgyfnerthu a chywiro unrhyw wall cystrawen, cyfoethogi iaith, cofio ymadroddion, dysgu ffurfiau cryno'r ferf a.y.y.b.